# Y Pwyllgor Deisebau

**PET(3)-01-10 Papur 2: 19 Ionawr 2010**

## Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am y deisebau sydd i gael eu hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2010.

### (i) P-03-247 Achub cartref Hedd Wyn

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i gydnabod pwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol cyn gartref Hedd Wyn ac i chwilio am ffyrdd y gellir diogelu'r rhan bwysig hon o hanes Cymru ar gyfer y genedl.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Keith Underdown, a chasglodd 25 o lofnodion.

### (ii) P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ohirio penderfyniad ynglŷn â'r ffordd osgoi arfaethedig yn y Drenewydd nes ei bod wedi datblygu a threialu cyfres o fesurau cynaliadwy yn y dref ei hun i fynd i'r afael â thagfeydd traffig.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Gary Saady, a chasglodd 37 o lofnodion.  Mae'r deisebwr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 2A.

### (iii) P-03-264 Helpwch i atal y dirywiad ofnadwy mewn bywyd gwyllt a chynefinoedd

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn caru bywyd gwyllt yn fawr ac yn bryderus am y byd naturiol yr ydym yn ei greu i'n plant a chenedlaethau i ddod. Bydd y targed o atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010 wedi'i fethu - rydym yn parhau i golli ein bywyd gwyllt. Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu'n awr i atal colli bioamrywiaeth a chymryd camau rhagweithiol i adfer cynefinoedd pwysig a rhywogaethau sydd mewn perygl.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal ymchwiliad llawn i ddarganfod pam y bydd y targed wedi'i fethu ac i wneud argymhellion pendant i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ba gamau sydd angen eu cymryd i adfer ar unwaith ein bioamrywiaeth a gollwyd

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan RSPB Cymru, a chasglodd 541 o lofnodion.  Mae'r deisebwr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 2A.

### (iv) P-03-267 Cynllun gweithredu i Gymru ynghylch hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r cynllun gweithredu i Gymru ynghylch hepititis feirysol a gludir yn y gwaed fel mater o frys.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Hepatitis C Trust, a chasglodd 24 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 2A.

### (v) P-03-270 Gweithredu dros Blant

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o leoliadau dysgu seiliedig ar waith sy'n fwy addas ar gyfer anghenion y bobl ifanc hynny sy'n fwy agored i niwed, ac sy'n eu symud ymlaen o ddifrif gan sicrhau eu bod yn ennill

cymhwyster NVQ2 o leiaf. Yn benodol, byddem yn hoffi gweld rhagor o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref sydd am gael hyfforddiant ac nad ydynt yng ngofal awdurdod lleol.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Action for Children / Gweithredu dros Blant, a chasglodd 1 llofnod. Mae'r deisebwr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 2A.

### (vi) P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sy'n talu ardrethi busnes yn Arberth yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu effaith y newidiadau mewn gwerthoedd ardrethol ar fusnesau'r dref. Dylai'r asesiad hwn gynnwys yr effaith ar swyddi ac ar gau busnesau.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Siambr Fasnach Narberth a chasglodd 91 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 2A.

### (vi) P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau eu bod yn ymgynghori'n briodol â chymunedau ynghylch datblygiadau ffermydd gwynt a'u bod yn cynnal asesiad priodol o effaith y datblygiadau ar y seilwaith ffyrdd gan ystyried sut y bydd problemau traffig yn effeithio'n ehangach ar sectorau fel twristiaeth cyn cymeradwyo unrhyw ddatblygiad. Credwn mai dim ond drwy gynnal ymchwiliad cyhoeddus y gellir cwblhau asesiad priodol.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Gyngor Tref y Trallwng a chasglodd 1 llofnod. Mae'r deisebwr wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 01-10 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2010**